Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer

Llanhennock Lodge

LEONARD CHESHIRE DISABILITY
LLANHENWG
CASNEWYDD
NP18 1LT

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

04/04/2019

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.
Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Leonard Cheshire Disability wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu gofal nyrsio a gofal personol i hyd at 34 o bobl dros 18 oed yn Llanhennock Lodge. Roedd 26 o bobl yn byw yn y cartref ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae gan y gwasanaeth unigolyn cyfrifol dynodedig, ac mae'r rheolwr wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Crynodeb o'n canfyddiadau

1. Asesiad cyffredinol

Ar y cyfan, mae'r bobl yn hapus yn byw yn Llanhennock Lodge. Gwelsom rywfaint o welliant o ran lefelau ymgysylltu staff, yn enwedig yn ystod amser prydau. Fodd bynnag, mae'r rhyngweithio cymdeithasol a'r ysgogiad o ddydd i ddydd ar gyfer pobl sy'n aros yn eu hystafelloedd yn bennaf yn parhau i fod yn annigonol ac mae angen datblygu hyn. Mae angen gwelliannau o hyd i sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu cofnodi'n gywir ac yn unol â chynlluniau personol i fodloni gofynion cyfreithiol. Mae darparwr y gwasanaeth a'r unigolyn cyfrifol wedi darparu adnoddau a chymorth ychwanegol er mwyn galluogi i rywfaint o welliannau angenrheidiol gael eu cyflawni. Mae angen gwneud gwelliannau ychwanegol er mwyn sicrhau diwylliant agored a thryloyw i lywio a gwella gwasanaethau a sicrhau bod y staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.

2. Gwelliannau

Gwelsom fod canllawiau ysgrifenedig ar gael i'r staff ar bob person yr oedd angen cymorth codi a chario arno.

3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran pedwar o'r adroddiad hwn yn nodi ein hargymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth a'r meysydd lle nad yw'r darparwr cofrestredig yn bodloni gofynion cyfreithiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynlluniau personol,
- Cofnodi dyddiol
- Y Gymraeg,
- Rheoli a chefnogi'r staff,
- Lefelau o ryngweithio cymdeithasol ac ysgogi.

1. Llesiant

Crynodeb

Ar y cyfan, mae'r bobl yn hapus yn byw yn Llanhennock Lodge. Fodd bynnag, mae'r rhyngweithio cymdeithasol a'r ysgogiad o ddydd i ddydd ar gyfer pobl sy'n aros yn eu hystafelloedd yn bennaf yn parhau i fod yn annigonol ac mae angen gwella hyn.

Ein canfyddiadau

Roedd y perthnasau a oedd yn ymweld a'r bobl sy'n byw yn Llanhennock Lodge y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein hymweliad yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y staff ar y cyfan. Roedd sylwadau a wnaed yn cynnwys pethau fel *"happy with the service", "happy with the care my relative receives"* a *"I like living here and like all the different things on offer to eat".*

Gwelsom fod rhyngweithio'r staff â phobl yn seiliedig ar dasgau yn bennaf. Gwelsom fod y bobl i'w gweld yn treulio llawer o amser yn eu hystafelloedd a chyfyngedig fu'r rhyngweithio â'r staff, ac eithrio pryd y darperir gofal personol. Er enghraifft, arsylwyd ar un person drwy gydol y dydd yn ei ystafell heb unrhyw aelod o'r staff yn gweithio gydag ef. Roedd cofnodion dyddiol yr unigolyn yn dangos bod gofal personol wedi cael ei roi am 9.40am ac ni chafodd unrhyw beth arall ei gofnodi hyd at 12.30pm pan wnaethom archwilio'r ddogfen. Roedd y ddau ddiwrnod blaenorol wedi dangos bod gofal personol yn cael ei ddarparu bob tair awr ar gyfartaledd, ond ni welwyd unrhyw wybodaeth ychwanegol yn dangos unrhyw rhyngweithio cymdeithasol nac ysgogiad, ac eithrio cerddoriaeth yn chwarae'n dawel yn y cefndir. Roedd proffil un dudalen yr unigolyn yn nodi *"loves interacting with people and enjoys being in other peoples company" and "likes people to talk to them".* Nid oedd hyn yn amlwg yn y nodiadau dyddiol nac yn yr hyn a welsom yn ystod ein hymweliad. Ar ddiwedd ein harolygiad, cawsom dystiolaeth o amrywiaeth o weithgareddau ffurfiol a ddarperir a thystiolaeth o'r bobl yn ymgysylltu â'r person. Nodwyd bod y person hwn wedi mynychu pum gweithgaredd grŵp dros y mis diwethaf.

Yn ogystal â hyn, nid oedd gan un person, y dywedwyd wrthym ei fod yn dewis treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn ei ystafell, lawer o dystiolaeth o ymgysylltu cymdeithasol nac ysgogiad. Roedd y proffil un dudalen yn nodi *"one to one with activity staff"* am fod rhyngweithio personol yn bwysig iddynt. Gwnaethom archwilio wythnos o nodiadau dyddiol ac ni welsom unrhyw dystiolaeth o ryngweithio cymdeithasol gyda'r person. Roedd pob cofnod yn cyfeirio at ofal personol yn unig. Un diwrnod, gwelsom fylchau o bedair a pum awr rhwng unrhyw achos o staff yn ymgysylltu â'r person, er bod y ddogfennaeth gofal yn nodi bod gwiriadau'n cael eu cynnal bob dwy awr yn ystod y dydd. Gwnaethom hefyd archwilio dogfennaeth gweithgareddau ar gyfer y person hwn a gwelsom dystiolaeth o bum achlysur lle darparwyd ymgysylltu un i un gyda'r staff gweithgareddau y mis diwethaf am gost ychwanegol i'r unigolyn.

Gwnaethom hefyd siarad â gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymweld ac roedd eu sylwadau'n cynnwys pethau fel *“appears to be a lack of staff presence and lack of engagement for people in their rooms”* a *“the person is physically fine but their quality of life is a concern”.* Gwnaeth y staff y gwnaethom siarad â nhw hefyd nodi nad oedd ganddynt lawer o amser i dreulio gyda phobl ar lefel gymdeithasol *“a lot of contact with people is when we provide personal care not much time to do other things, nicer things with people”.* Gwelsom fod yr ystod o weithgareddau grŵp ffurfiol a ddarperir gan y tîm gweithgareddau yn amrywiol ac yn ddiddorol. Fodd bynnag, mae'r rhyngweithio cymdeithasol a'r ysgogiad ar gyfer y bobl sy'n aros yn eu hystafelloedd yn bennaf yn parhau i fod yn annigonol ac mae angen gwella hyn.

Gwnaethom arsylwi ar y pryd amser cinio, a oedd yn gyfle i edrych ar y rhyngweithio a'r sgyrsiau cyffredinol rhwng y bobl a'r staff mewn awyrgylch cymdeithasol hamddenol. Gwelsom ar y cyfan fod y staff yn fwy cyson o ran ymateb i anghenion cyfathrebu'r bobl ar lafar ac yn ddi-eiriau. Roedd dulliau ymgysylltu a rhyngweithio'r staff hefyd yn fwy cyson. Clywsom amrywiaeth o sgyrsiau yn cael eu dechrau drwy gydol y pryd, gan gynnwys y defnydd priodol o dynnu coes a hiwmor. Gwelwyd bod y staff a oedd yn helpu'r bobl gyda'u pryd yn canolbwyntio ar y person ac yn ymgysylltu â'r person hwnnw. Fodd bynnag, gwelwyd un aelod o'r staff yn helpu person i fwyta ei bryd heb unrhyw ryngweithio cymdeithasol na rhoi sicrwydd ar lafar. Arsylwyd ar yr aelod o'r staff yn gweiddi ar draws yr ystafell i'r staff eraill yn rhoi cyfarwyddiadau ac yn cwblhau'r cofnodion dyddiol wrth gefnogi'r unigolyn. Gwelsom welliannau yn nulliau ymgysylltu'r staff gan hyrwyddo profiad bwyta cadarnhaol i'r rhan fwyaf o'r bobl. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau pellach.

2. Gofal a Chymorth

Crynodeb

Mae angen gwelliannau i sicrhau bod gofal a chymorth yn cael ei gofnodi'n gywir ac yn unol â chynlluniau personol i fodloni gofynion cyfreithiol. Ar y cyfan, mae systemau ar waith ar gyfer storio a gweinyddu meddyginiaeth yn ddiogel.

Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn parhau i gael cymorth a chefnogaeth nad yw'n adlewyrchu eu cynlluniau personol ac nid yw'r cofnodion yn adlewyrchu'r gofal na'r cymorth a roddir yn gywir. Edrychwyd ar bedair ffeil gofal a chofnodion dyddiol cyfatebol. Roedd gan bob person gynllun personol a oedd yn canolbwyntio ar y person. Fodd bynnag, ni welsom lawer o dystiolaeth a oedd yn dangos y caiff y gofal a'r cymorth ei ddarparu i bob person yn unol â'r cynlluniau hyn. Roedd y gwasanaeth newydd gyflwyno system arall ar gyfer cofnodi'r gofal a'r cymorth a ddarperir bob dydd. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw *"new paperwork seems to be introduced all the time" and "not sure how we should be completing the new forms".* Gwelsom y nodyn canlynol i bob aelod o'r staff yn y swyddfa gofal, *"also note we have new daily narrative sheet".* Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ganllawiau ar gael ar gwblhau'r ddogfen newydd ac roedd gan yr uwch aelodau o'r staff a oedd yn gyfrifol am drafod y gwaith papur newydd wrth drosglwyddo bryderon am y ffordd y cafodd y gwaith papur newydd ei gyflwyno. Pan wnaethant drafod gyda'r rheolwr, gwnaethant gytuno bod canllawiau i ategu'r gwaith papur wedi cael eu hesgeuluso ar yr achlysur hwn. Gwelsom fod y cofnodion dyddiol y gwnaethom eu harchwilio yn amhersonol ac yn cynnwys sylwadau cyson fel *"washed and changed"* a *"personal care".* Roedd un person wedi cael ei *"teeth cleaned"* deirgwaith mewn un diwrnod, ond ddim o gwbl ar y diwrnod cynt na'r diwrnod wedyn. Roedd cofnodion dyddiol person arall yn dangos bwlch o bum awr rhwng 6pm a 11pm, lle roedd yn nodi ar frig y dudalen mewn testun trwm bod angen i wiriadau gael eu cynnal bob dwy awr yn ystod y dydd a bob pedair awr yn ystod y nos.

Yn ogystal â hyn, gwelsom wybodaeth yn gwrthdaro mewn cynlluniau personol. Er enghraifft, roedd yn nodi yng nghynllun un person *"diazepam before shower if the person is anxious"* ond nid yw'r manylion meddyginiaeth yn y ffeil yn cyfeirio at ddefnyddio diazepam 'yn ôl yr angen'. Gwnaethom nodi fod asesiadau o'r risg o gwympiadau ar goll. Er enghraifft, mewn un ffeil gofal, gwelsom ffurflen gweithredoedd ac argymhellion clinigol yn nodi "unable to locate falls assessment". Roedd y ffurflen hon wedi'i dyddio 8 Ionawr 2019, ac ar ddiwrnod ein hymweliad, nid oeddem yn gallu dod o hyd i un. Nid oedd ffeil person arall yn cynnwys cynllun gofal mewn perthynas â sclerosis ymledol datblygedig. Gwnaethom hefyd nodi fod cofnodion gofal dyddiol yn datgan bod angen cynnal gwiriadau bob dwy awr yn ystod y dydd ond roedd y cynlluniau personol cyfatebol yn datgan bob pedair awr. Roedd ffeil gofal arall yn cynnwys proffil un dudalen yn nodi bod *"my daughter"* yn bwysig i mi, Fodd bynnag, roedd yr adran sy'n ymwneud â chydberthnasau a ffrindiau yn y cynllun personol yn wag. Gwnaethom nodi fod gweithwyr proffesiynol eraill sy'n rhan o ofal y

person hwn wedi holi ynghylch cydberthnasau teuluol yn flaenorol. Gwnaeth gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld nodi *"plans have improved"* ond yna aeth ymlaen i ddweud *“if only staff read the plans they are comprehensive”.*

Roedd y ffolder nodiadau a gyflwynwyd yn ddiweddar a oedd yn cael ei gadw yn y swyddfa gofal hefyd yn cynnwys gwybodaeth ddryslyd mewn perthynas â darparu gofal. Er enghraifft, gwelwyd nodyn a oedd yn dweud na ddylai unigolyn wisgo ei sblint am ei fod yn boenus, gyda cham gweithredu i'r nyrsys gyfeirio'r unigolyn naill ai at feddyg teulu neu i gael x-ray. Roedd y staff wedi ychwanegu sylwadau pellach gan gynnwys sylw yn nodi *“do not need any x-ray”* heb unrhyw lofnod aelod o'r staff nac esboniad ategol. Roeddem yn ymwybodol o ddigwyddiad diweddar a gyfeiriwyd at y tîm diogelu lleol a oedd wedi arwain at fân anaf i'r person hwn. Gwelsom fod asesiadau risg a'r cynllun personol wedi'u diweddaru. Gwnaethom hefyd weld canllawiau symud a thrin i staff eu dilyn yn yr ystafelloedd unigol ac mewn ffeiliau cofnodi dyddiol. Fodd bynnag, cawsom wybod am ddigwyddiad ar y diwrnod yn cynnwys yr un person. Mae'n debyg nad oedd wedi'i osod yn briodol cyn cael ei godi. Dywedodd un perthynas a oedd yn ymweld bod ei anwylyd *"did not have her palm protectors on when I arrived”* ac roedd angen iddynt dynnu sylw y staff at hyn. Gwelwyd bod angen gwelliannau pellach i sicrhau y caiff gofal a chymorth ei gofnodi'n gywir ac yn unol â chynlluniau personol i fodloni gofynion cyfreithiol.

Nid yw'r bobl wedi'u diogelu gan systemau cadarn ar gyfer gweinyddu meddyginiaeth. Gwelsom boteli o feddyginiaeth a oedd wedi cael eu hagor heb unrhyw dystiolaeth o'r dyddiad y cafodd y feddyginiaeth ei hagor neu roedd dyddiad wedi'i nodi ar y label presgripsiwn ond yn anodd ei ddarllen neu fod yn sicr ai dyna'r diwrnod y cafodd y feddyginiaeth ei hagor. Mae'n bosibl bod y system ad-hoc hon yn caniatáu i feddyginiaeth gael ei defnyddio y tu hwnt i'r diwrnod 'defnyddio erbyn' a argymhellir. Roedd cofnodion cyfarfod staff yn cynnwys adborth gan fferyllydd bwrdd iechyd lleol a oedd wedi cwblhau archwiliad yn y gwasanaeth ac roedd hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod meddyginiaeth a oedd wedi dyddio yn cael ei defnyddio. Gwelsom y staff yn defnyddio dulliau priodol i roi'r feddyginiaeth. Ar y cyfan, roedd systemau ar waith ar gyfer storio a gweinyddu meddyginiaeth yn ddiogel, ond mae angen gwneud rhai gwelliannau er mwyn diogelu'r bobl ac atal canlyniadau iechyd a llesiant gwael.

3. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Crynodeb

Mae llinellau atebolrwydd ac arweinyddiaeth glir ar waith. Roedd darparwr y gwasanaeth a'r unigolyn cyfrifol wedi darparu adnoddau a chymorth ychwanegol er mwyn galluogi i rywfaint o welliannau gael eu cyflawni. Mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau diwylliant agored a thryloyw i lywio a gwella gwasanaethau a sicrhau bod y staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.

Ein canfyddiadau

Ni allai'r bobl fod yn sicr bod y llinellau atebolrwydd ac arweinyddiaeth briodol ar waith. Fodd bynnag, mae'r rheolwyr yn weladwy. Gwelsom fod y rheolwyr, gan gynnwys rheolwr rhanbarthol a'r unigolyn cyfrifol, yn bresennol yn rheolaidd a chadarnhaodd y staff gadarnhau. Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwnaethom hefyd weld aelod o'r tîm sicrhau ansawdd yn adolygu'r systemau gwaith papur. Dywedwyd wrthym *"Our manager is very good"* a *"she is trying hard to improve things".* Fodd bynnag, dywedwyd wrthym hefyd bod un uwch aelod o'r staff *"was a bit abrupt"* ac *"I am a bit wary of them".* Yn ystod ein hymweliad, dywedodd y staff wrthym fod pethau wedi gwella am gyfnod o amser ond roedd moral y staff i'w weld yn isel. Roedd tri aelod o'r staff yn ystyried chwilio am waith yn rhywle arall. Roedd cofnodion cyfarfodydd staff yn cynnwys sylwadau fel *"quite rude"* ac *"inappropriate in the way they speak to staff"* am yr arweinwyr tîm. Nodwyd bod y rheolwr wedi ymateb i bryderon a godwyd gan y staff gofal a gofynnwyd pa sgiliau, cryfderau neu rinweddau yr hoffent eu gweld mewn arweinydd tîm ac roedd ymatebion yn cynnwys er enghraifft *"ask and not tell", "don't make assumptions"* a *"feedback appropriately to staff".*

Yn ogystal â hyn, dywedodd un aelod o'r staff wrthym ei fod yn teimlo'n *"unsupported"* gan y rheolwyr. Gwnaeth aelod arall o'r staff drafod anawsterau wrth weithio ochr yn ochr â nyrsys asiantaeth, yr effaith uniongyrchol roedd yr anawsterau hyn yn ei chael ar eu diwrnod gwaith a'r pwysau ychwanegol pan fydd staff gofal a phreswylwyr ond yn mynd atyn nhw i gael cymorth. Gwnaethom arsylwi ar amrywiaeth o achosion o ryngweithio rhwng uwch aelodau o'r staff a'r staff gofal, gan amrywio o fod yn rhyngweithio cefnogol a chynhwysol i fod yn rhyngweithio sych a gorchmynnol. Gwnaethom archwilio ddetholiad o gofnodion goruchwylio'r staff a gwelsom nad oedd llawer o gyfleoedd i staff drafod a myfyrio ar eu hymarfer yn agored er mwyn helpu i nodi unrhyw anghenion o ran datblygu mewn perthynas â chyflawni gofynion eu rôl. Roedd holiadur a gafodd ei ddychwelyd i AGC gan aelod o'r staff yn nodi *"I feel competent and confident in my role despite the lack of support"* a phan ofynnwyd pa welliannau y gellid eu gwneud, nododd *"Management should listen and act. Regular supervisions with manager."* Mae'r gwasanaeth wedi gweld nifer o newidiadau i uwch rolau, yn ogystal â throsiant staff sylweddol ac, o bryd i'w gilydd, ddibyniaeth fawr ar staff asiantaeth dros y 12 mis diwethaf. Dywedwyd wrthym fod hyn wedi

cael effaith ar forâl y staff a gwelsom hynny. Byddai'r gwasanaeth yn cael budd o dîm cadarn a chydlynol sydd wedi setlo o ran diwallu anghenion y bobl.

Gwnaeth drafod y materion uchod gyda'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol, a rhoddwyd sicrwydd yr eir i'r afael â dulliau cyfathrebu a chymorth staff. Roedd asiantaethau allanol, gan gynnwys cyrff comisiynu, yn craffu'n sylweddol ar y gwasanaeth. Roedd cynllun gweithredu helaeth ar waith er mwyn gwella'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu. Roedd darparwr y gwasanaeth a'r unigolyn cyfrifol wedi darparu adnoddau a chymorth ychwanegol er mwyn galluogi gwelliannau sy'n mynd rhagddynt. Fodd bynnag, gwelsom fod angen datblygu llinellau atebolrwydd ac arweinyddiaeth, er mwyn sicrhau diwylliant agored a thryloyw i lywio a gwella gwasanaethau a sicrhau bod y staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi yn eu rolau.

4. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

4.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, nodwyd y canlynol fel meysydd lle nad oedd y darparwr yn bodloni gofynion cyfreithiol ac roeddent yn cynnwys:

Safonau gofal a chymorth - **Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 – Rhan 7 Rheoliad 21(2)** Gwelsom nad oedd y darparwr gwasanaeth wedi sicrhau y caiff gofal a chymorth eu darparu i bob unigolyn yn unol â chynllun personol yr unigolion. Mae angen gwella'r maes hwn ymhellach ac felly nid yw'n bodloni'r gofynion cyfreithiol o hyd. Mae hysbysiad diffyg cydymffurfio wedi cael ei gyflwyno ar yr achlysur hwn.

Gofynion eraill - Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 - Rhan 15 Rheoliad 59(1) Gwelsom nad oedd y darparwr gwasanaethau yn cadw'r cofnodion a nodir yn Atodlen 2 Rhan 1(f) gofal a ddarperir, gan gynnwys cofnodion dyddiol neu gofnodion o ymyriadau gofal penodol. Mae angen gwella'r maes hwn ymhellach ac felly nid yw'n bodloni'r gofynion cyfreithiol o hyd. Mae hysbysiad diffyg cydymffurfio wedi cael ei gyflwyno ar yr achlysur hwn.

Safonau gofal a chymorth - **Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 – Rhan 7 Rheoliad 24(1)** Gwelsom nad oedd y darparwr gwasanaeth yn cymryd camau gweithredu rhesymol i ddiwallu anghenion ieithyddol yr unigolion. Nid yw'r maes hwn yn bodloni gofynion o hyd. Nid oes hysbysiad diffyg cydymffurfio wedi cael ei gyflwyno ar yr achlysur hwn, gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau mewn perthynas â staffio – **Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 – Rhan 10 Rheoliad 37** Gwelsom nad oedd darparwr y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llawn â'r cod ymarfer ar gyfer cyflogwyr gweithwyr gofal cymdeithasol (cyhoeddiad Gofal Cymdeithasol Cymru). Nid oes hysbysiad diffyg cydymffurfio wedi cael ei gyflwyno ar yr achlysur hwn, gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gwasanaethau gymryd camau ar unwaith i unioni'r materion uchod ac y byddwn yn edrych arnynt eto yn yr arolygiad nesaf.

4.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Mae argymhellion ychwanegol yn cynnwys y canlynol:

- Gwelliannau i ddulliau ymgysylltu, rhyngweithio cymdeithasol ac ysgogi'r staff ar gyfer y bobl, yn enwedig y rhai sy'n aros yn eu hystafelloedd yn bennaf.

5. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol yn dilyn pryderon diogelu a godwyd ynghylch ymarferion codi a chario a phryderon parhaus a uwchgyfeiriwyd i'r bwrdd iechyd lleol. Gwnaethom ystyried llesiant y bobl, y gofal a'r cymorth y mae'r bobl yn eu cael a'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei arwain a'i reoli. Gwnaethom gynnal un ymweliad dirybudd â'r cartref ar 4 Ebrill 2019 rhwng 9:30 a.m. a 6:45 p.m.

Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

- Gwnaethom siarad â dau berson sy'n byw yn y cartref a thri pherthynas a oedd yn ymweld.
- Gwnaethom siarad ag wyth aelod o'r staff, y rheolwr, y dirprwy reolwr, y rheolwr rhanbarthol a'r unigolyn cyfrifol.
- Gwnaethom siarad â phedwar gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld.
- Gwnaethom edrych o gwmpas y cartref ac arsylwi arno.
- Gwnaethom ddefnyddio'r Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI). Mae adnodd SOFI yn galluogi arolygwyr i arsylwi ar ofal a'i gofnodi er mwyn ein helpu i ddeall profiadau'r bobl na allant gyfathrebu â ni.
- Ar adeg cwblhau'r adroddiad hwn, roedd tri holiadur a gwblhawyd wedi cael eu dychwelyd i AGC.
- Gwnaethom adolygu gwybodaeth am y gwasanaeth a ddelir gan AGC.
- Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth a oedd yn cynnwys:
    - Cofnodion gofal pedwar unigolyn.
    - Matrics goruchwylio'r staff, cofnodion cyfarfodydd goruchwylio.
    - Cofnodion cyfarfodydd tîm y staff.
    - Storio meddyginiaeth a chofnodion.
    - Cofnodion o bryderon, cwynion a chanmoliaeth.
    - Cofnodion o ddamweiniau a digwyddiadau.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	**Gwasanaeth Cartref Gofal**
Darparwr Gwasanaeth	**Leonard Cheshire Disability**
Rheolwr	
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	**34**
Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	**29 Tachwedd 2018**
Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn	**04 Ebrill 2019**
Iaith weithredol y gwasanaeth	**Saesneg ar hyn o bryd**
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	**Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl sy'n defnyddio ei wasanaeth neu sy'n bwriadu gwneud hynny. Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried "Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru …. Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2016-19".**
Gwybodaeth Ychwanegol:	

Dyddiad Cyhoeddi [Insert Report Published Actual]

Arolygiaeth Gofal Cymru

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Hysbysiad Diffyg Cydymffurfio

Gwasanaeth Cartref Gofal

Mae’r hysbysiad hwn yn nodi’r meysydd lle nad yw eich gwasanaeth yn cydymffurfio â’r rheoliadau. Mae'n ofynnol i chi, y person cofrestredig, gymryd camau gweithredu er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio o fewn yr amserlenni a bennir.

Mae cyflwyno'r hysbysiad hwn yn fater difrifol. Os na lwyddir i gydymffurfio, bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn gweithredu yn unol â’i pholisi gorfodi.

Mae mwy o gyngor a gwybodaeth ar gael ar wefan AGC
www.arolygiaethgofal.cymru

Llanhennock Lodge

LEONARD CHESHIRE DISABILITY
LLANHENWG
CASNEWYDD
NP18 1LT

Dyddiad cyhoeddi: **(manually entered)**

Gofal a Chymorth	Ein Cyf: NONCO-00007572-KMNV
Y diffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn	
Amserlen gwblhau	**01/07/19**
Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau gweithredu	**Rhif y rheoliad**
Safonau gofal a chymorth - Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 – Rhan 7 Rheoliad 21(2)	
Tystiolaeth	
Safonau gofal a chymorth - Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 – Rhan 7 Rheoliad 21(2) Gwelsom nad oedd y darparwr gwasanaeth wedi sicrhau y caiff gofal a chymorth eu darparu i bob unigolyn yn unol â chynllun personol yr unigolion. Tystiolaeth Nid yw'r gwasanaeth wedi mynd i'r afael â phryderon a fynegwyd gan asiantaethau comisiynu yn 2018 yn foddhaol a gwnaeth hyn arwain at gomisiynwyr yn atal lleoliadau yn y cartref. Cymerodd y darparwr gamau mewn ymateb i bryderon y comisiynwyr ac nid yw atal lleoliadau yn y cartref wedi arwain at newidiadau na gwelliannau cynaliadwy. Nid yw'r gwasanaeth wedi mynd i'r afael â'r meysydd y mae angen eu gwella er mwyn bodloni gofynion cyfreithiol a nodwyd gan AGC ym mis Tachwedd 2018. Edrychwyd ar bedair ffeil gofal a chofnodion dyddiol cyfatebol. Roedd gan bob person gynllun personol, ond roedd asesiadau risg a gwybodaeth berthnasol yn ymwneud â materion iechyd penodol ar goll, roedd gwybodaeth groes wedi'i chynnwys yn y proffiliau un dudalen a'r cynlluniau personol. Ni welsom lawer o dystiolaeth a oedd yn dangos y caiff y gofal a'r cymorth eu darparu i bob person yn unol â'r cynlluniau hyn ac roedd angen gwella'r wybodaeth yn y cynlluniau personol. Cynllun Personol A – dim ond un aelod o'r staff a oedd wedi llofnodi (yr awdur) i gadarnhau ei fod wedi adolygu'r cynllun a oedd yn canolbwyntio ar y person, dyddiedig 23/03/19. Roedd y wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys ym mhroffil un dudalen y person ar goll neu'n groes i'r hyn a nodwyd yn ei gynllun personol. Nid oedd asesiad o'r risg o gwympiadau wedi'i ddiweddar yn dilyn achos o gwympo ac roedd yn cyfeirio at "no falls". Cynllun Personol B - dim tystiolaeth o'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen mewn perthynas ag anghenion gofal iechyd penodol, sclerosis ymledol neu gynllun gwrthfiotigau, a gwybodaeth gofal cathetr anghywir. Dim tystiolaeth o gofnodi tymheredd cyson a lefelau ocsigen, fel y gofynnwyd gan y meddyg teulu. Cynllun Personol C – asesiad risg atal cwympiadau ar goll, gwybodaeth groes yn y cynllun personol mewn perthynas â'r ffaith bod meddyginiaeth ar gael "yn ôl yr angen", yn groes i'r gofal lleddfu ardaloedd pwyso.	

Cynllun Personol D – anghysondebau mewn cyfarwyddiadau gofal ardaloedd pwyso. Nid oedd y wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys ym mhroffil un dudalen y person yn cynnwys ei gynllun personol. Roedd yr asesiad o'r risg o gwympiadau ar goll.
Cawsom wybod gan un perthynas a oedd yn ymweld nad oedd ei berthynas yn gwisgo amddiffynwyr cledrau pan gyrhaeddodd ac roedd angen iddo dynnu sylw y staff at hyn.

Dylai cynlluniau personol fod yn gynhwysfawr a chanolbwyntio ar yr unigolyn. Dylai'r staff fod yn gyfarwydd â'r cynlluniau a'u dilyn, fel arall, gellid darparu gofal a chymorth amhriodol.
Mae'r effaith ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn risg diangen i'w hiechyd a'u llesiant.

Gofal a Chymorth	Ein Cyf: NONCO-00007573-SMPM
Y diffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn	
Amserlen gwblhau	**01/07/19**
Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau gweithredu	**Rhif y rheoliad**
Gofynion eraill – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 - Rhan 15 Rheoliad 59(1)	

Tystiolaeth

Gofynion eraill - Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 - Rhan 15 Rheoliad 59(1) Gwelsom nad oedd y darparwr gwasanaethau yn cadw'r cofnodion a nodir yn Atodlen 2 Rhan 1(f) gofal a ddarperir, gan gynnwys cofnodion dyddiol neu gofnodion o ymyriadau gofal penodol.

Tystiolaeth
Nid yw'r gwasanaeth wedi mynd i'r afael â phryderon a fynegwyd gan asiantaethau comisiynu yn 2018 yn foddhaol a gwnaeth hyn arwain at gomisiynwyr yn atal lleoliadau yn y cartref. Cymerodd y darparwr gamau mewn ymateb i bryderon y comisiynwyr ac nid yw atal lleoliadau yn y cartref wedi arwain at newidiadau na gwelliannau cynaliadwy.
Nid yw'r gwasanaeth wedi mynd i'r afael â'r meysydd y mae angen eu gwella er mwyn bodloni gofynion cyfreithiol a nodwyd gan AGC ym mis Tachwedd 2018.
Edrychwyd ar bedair ffeil gofal a chofnodion dyddiol cyfatebol. Roedd gan bob person gynllun gofal. Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth yn dangos bod y gofal a'r cymorth a ddarperir i bob person bob dydd yn brin, yn anghyson ac nid oedd yn adlewyrchu gweithredoedd a chanlyniadau personol i'r bobl, fel y nodwyd yn eu cynlluniau personol.
Roedd y cofnodion gofal a chymorth dyddiol y gwnaethom eu harchwilio yn amhersonol. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o ofal a chymorth a oedd yn canolbwyntio ar y person yn cael eu darparu. Defnyddio ymadroddion fel "washed and changed" a "personal care given" yn gyson. Ni chafodd unrhyw dystiolaeth ei nodi i ddangos bod y staff yn rhyngweithio â'r bobl y tu hwnt i dasgau a oedd yn ymwneud â gofal personol. Nid oedd y naratif yn cyfeirio at lesiant na hwyliau'r bobl o gwbl. Nid oedd proffiliau un dudalen unigol sy'n rhoi trosolwg o hoff a chas bethau y bobl a'u dewisiadau yn cael eu hadlewyrchu yn y cofnodion dyddiol.
Roedd y ddogfen lleddfu gofal ardaloedd pwyso ac ail-leoli yn ddryslyd. Roedd y cynlluniau personol a archwiliwyd yn cyfeirio at wiriadau/ail-leoli bob 4 awr. Fodd bynnag, roedd y taflenni cofnodi dyddiol yn nodi gwiriadau bob dwy awr yn ystod y dydd. Nid oedd y cofnodion dyddiol a archwiliwyd yn dangos tystiolaeth o wiriadau bob dwy awr ac roedd bylchau'n amrywio rhwng 3 a 5 awr.

Mae'r effaith ar y bobl sy'n defnyddio’r gwasanaeth yn golygu ei bod yn bosibl na chaiff anghenion unigol eu diwallu, gan arwain at risg diangen i'w hiechyd a'u llesiant.